OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1457

# Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 3) 2021

**Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"mae i "anghenion dysgu ychwanegol" ("*additional learning needs*") yr ystyr a roddir gan adran 2 o Ddeddf 2018;";

"ystyr "Deddf 2018" ("*the 2018 Act*") yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018;".

(3) Yn Atodlen 2, ar ddechrau paragraff 9 mewnosoder "Ar gyfer disgybl y mae Pennod 1 o Ran 4 o Ddeddf 1996 yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas ag ef,".

(4) Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 9 mewnosoder—

"**9A.** Ar gyfer disgybl y mae Rhan 2 o Ddeddf 2018 yn gymwys mewn perthynas ag ef, a oes gan y disgybl anghenion dysgu ychwanegol ac, os felly, cadarnhad ynghylch—

(a) holl anghenion dysgu ychwanegol y disgybl a nodwyd;

(b) a oes gan y disgybl gynllun datblygu unigol a gynhelir o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 ac, os felly, a yw corff llywodraethu'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn ei gynnal; ac

(c) y cymorth a ddarperir."

(**1**) O.S. 2007/3562 (Cy. 312). Mae diwygiadau i reoliad 3 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Diwygiwyd paragraff 9(a) o Atodlen 2 gan O.S. 2016/837 (Cy. 211), rheoliad 2(c).